Daethpwyd o hyd i'r memrwn hwn yng Nghastell y Bere yn y flwyddyn 2002.

*Castell y Bere*
*Medi 1283*

*Ymhen blynyddoedd fydd neb yn gwybod pwy ydw i. Ond rydw i'n gobeithio y bydd yna Gymru ac rydw i'n gobeithio y bydd Cymraeg yn iaith fyw fel ag y mae heddiw. Pan ddes i i fyw yng Nghymru doedd gen i ddim dewis ond dysgu Cymraeg oherwydd does fawr neb yma yn siarad Saesneg. Rydw i hefyd yn gobeithio y bydd pobl Cymru yn cofio am Lywelyn Ein Llyw Olaf a'i aberth dros ei deyrnas.*
*Ond pwy ydw i, meddech chi? Elizabeth de Ferrers ydy'r enw, merch William de Ferrers, 5ed Iarll Derby a gweddw Dafydd ap Gruffydd, brawd Llywelyn.*
*Mae bywyd wedi mynd ar chwâl i ni fel teulu a dim ond fi sydd ar ôl bellach hyd y gwn i. Mae'n debyg fy mod wedi cael llonydd gan mai Saesnes ydw i a dydw i ddim yn debygol o godi gwrthryfel yn erbyn Edward, brenin Lloegr. Llonydd i aros yma ar fy mhen fy hun. Heb ŵr. Heb blant. Heb deulu. Neb. Ar fy mhen fy hun bach.*
*Angofia i fyth mo fis Rhagfyr 1282. Roedd Llywelyn wedi cael ei ddenu i ganolbarth Cymru trwy dwyll ac wedi mynd â rhan fechan o'i fyddin gyda fe. Ar fore barugog, ger afon Irfon, cafodd ei drywanu gan un o filwyr Edward. A doedd y bwgan ddim yn deall ei fod wedi lladd Tywysog Cymru! Y twpsyn! Pan ofynnodd Llywelyn, druan, am esgob a datgelu ei enw torrwyd ei ben i ffwrdd. Mae gen i gywilydd bod fy nghenedl i fy hun mor farbaraidd. A beth wnaethon nhw wedyn? Rhoi'r pen ar bolyn a mynd ag ef i Lundain i'w arddangos fel rhybudd i eraill i beidio â meiddio gwrthryfela yn erbyn Edward.*

*Doedden ni - Dafydd, fy mhlant, Gwenllian, merch Llywelyn a swyddogion y llys yn gwybod dim am hyn. Roedden ni yng nghastell Dolwyddelan a'r plant yn dechrau cyffroi wrth feddwl am y Nadolig. Dyma glywed carnau trwm yn ceffylau yn clecian ar y creigiau un gyda'r nos. Roedd Llywelyn a'i filwyr yn dychwelyd! A dyna pryd clywson ni'r newyddion erchyll. Doedd dim amdani ond i Dafydd gymryd yr awenau. Ond roedd hi'n anodd. Yn anodd iawn.*

Erbyn mis Ionawr 1283, roedd Edward I wedi amgylchynu Canolbarth Cymru i gyd. O Ddolwyddelan roedd Dafydd yn gweithredu ond fe fethon ni ag amddiffyn y castell yno a bu'n rhaid symud i Gastell y Bere. Pan gafodd hwnnw ei oresgyn dihangodd Dafydd i gastell Dolbadarn wrth droed yr Wyddfa cyn dianc wedyn ym mis Mai i Garth Celyn. Yno, uwchben Abergwyngregyn, ar Fehefin 22ain,y cafodd ei ddal gan ddynion Edward. Nid yn unig Dafydd, ond pawb ohonom fel teulu gan gynnwys Gwenllian, y baban amddifad. Aethant â Dafydd a'm mab ieuengaf, Owain, i Gaer ac yna i'r Amwythig. Wythnos yn ddiweddarach cafodd fy mab arall, Llywelyn, ei ddal.

Welais i run aelod o'm teulu wedyn. Ond clywais sibrydion gan fy morwyn. Roedd y modd y cafodd Dafydd ei drin gan y Saeson yn anfaddeuol. Cael ei glymu wrth gynffon ceffyl a'i lusgo ar hyd strydoedd Amwythig. Ei grogi. Ei ryddhau cyn iddo farw'n iawn. Yna rhwygo ei berfeddion allan o'i gorff a'u llosgi o'i flaen cyn torri ei gorff yn bedwar. Mae'r hunllef yna'n codi cyfog arnaf ac yn fy nghadw'n effro nos ar ôl nos.

Wn i ddim beth ddigwyddodd i Owain a Llywelyn. Maen nhw'n dweud bod Gwladys, fy merch fach, wedi cael ei chario i leiandy yn Sixhills yn Swydd Lincoln a Gwenllian, oedd yn ddim ond chwe mis oed, i leiandy yn Sempringham yn yr un sir. Dull ardderchog o'u hatal rhag cael plant. Mae'n rhaid bod ein teulu yn dipyn o boen yn ystlys Edward. Beth ddaw o'r merched bach tybed? Welan nhw ei gilydd eto? Wnan nhw ddim clywed gair o Gymraeg, mae'n sicr, ac ni fyddan nhw'n gwybod o ble maen nhw'n dod nac i bwy maen nhw'n perthyn. Fy melltith ar frenin Lloegr ac ar fy nghenedl fy hun.